OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 501

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2003

**Dyddiau penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym adran 116 o'r Ddeddf a pharagraff 26(1) a (3) o Atodlen 4 iddi i'r graddau maent yn mewnosod "68" yn adran 9(2)(d) o Ddeddf Diogelu Plant 1999(**1**) yw trannoeth y diwrnod y mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud.

(2) 1 Ebrill 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) adran 57 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 60(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â rheolau'r Cyngor o ran y dystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall sydd i'w dangos gan y rheiny sy'n gwneud cais i gofrestru ac nad yw eisoes mewn grym;

(c) adran 104(1) i'r graddau y mae'n berthnasol i—

(i) adran 104(2)(b) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 113(3E)(b) yn Neddf yr Heddlu 1997(**2**);

(ii) adran 104(3)(a) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 115(5)(eb) yn Neddf yr Heddlu 1997.

(3) 30 Ebrill 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym darpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) adran 116 ac Atodlen 4 iddi i'r graddau maent yn ymwneud â pharagraff 27 o'r Atodlen hwnnw;

(b) adran 117(2) ac Atodlen 6 iddi i'r graddau maent yn ymwneud â Deddf Fabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999.

(4) 1 Mehefin 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym adrannau 56, 58 i 60, 62, 64(2) i (5), 65, 68 a 69 o'r Ddeddf i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym.

(**1**) 1999 p.14.
(**2**) 1997 p.50.